Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: Tueddiadau

**Dr Helen Hodges**

Medi 2020

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a defnyddio tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a chrynhoi tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a chanfod bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'i defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath; a
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaeth llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i wella gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil effeithiol sy'n berthnasol i bolisi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

## Arianwyr Craidd

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** 4

**Cyflwyniad** 5

**Tueddiadau dros amser** 9

Pa awdurdodau lleol sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y duedd ar i fyny? 12

Pa grwpiau sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y duedd ar i fyny? 13

A oes newidiadau wedi bod i'r math o ddarpariaeth lle mae plant yn cael eu lleoli? 14

Ble maen nhw'n byw? 17

Beth yw eu statws cyfreithiol? 18

**Atodiad Data** 19

**Cyfeiriadau** 25

Manylion yr Awduron 26

# Crynodeb

- Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 7% rhwng 31ain Mawrth 2018 a 31ain Mawrth 2019; mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 102 i 109 am bob 10,000.
- Serch hynny, mae'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mewn wyth awdurdod lleol, ar ddiwrnod y cyfrifiad, roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal naill ai'r un fath ag yr oedd ar yr un diwrnod y flwyddyn flaenorol, neu'n is na hynny.
- Ar gyfer deg awdurdod lleol, roedd y garfan dros 10% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r deg awdurdod lleol hyn yn cyfrif am 85% o'r cynnydd cenedlaethol net rhwng 2018 a 2019.
- Fodd bynnag, mae data ciplun, oherwydd ei natur, yn sensitif i amrywiadau tymor byr yn y niferoedd. Felly, mae'n bwysig edrych ar y tueddiadau yn y data hyn.
- Dros y pum mlynedd hyd 31ain Mawrth 2019, roedd nifer y plant mewn gofal yng Nghymru wedi cynyddu dros 22% (cynnydd o 1,235 o blant a phobl ifanc).
- Yn ystod y cyfnod hwn, mae pedwar awdurdod lleol wedi gweld gostyngiad graddol yn eu niferoedd, ac mae dau yn enwedig – Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot – wedi gweld gostyngiadau mawr.
- O'i gymharu â hynny, mae naw awdurdod lleol wedi gweld tuedd ar i fyny yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn y blynyddoedd diwethaf. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrif am bron 83% o'r cynnydd net mewn niferoedd dros y pum mlynedd.
- Petai'r awdurdodau lleol hyn heb weld cynnydd na gostyngiad dros y pum mlynedd, byddai cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar 31ain Mawrth 2019 yn 93 am bob 10,000 (5,840 o blant a phobl ifanc).
- Dros y tair blynedd lle mae data ar gael am y garfan ehangach o blant sy'n derbyn gofal a chymorth, dim ond cynnydd o 3% sydd wedi bod yn y nifer gyffredinol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r nifer ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31ain Mawrth wedi aros yr un fath fwy neu lai.
- Mae hyn yn golygu bod gostyngiad o 6% yng nghyfran y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth, ac sydd ddim ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blant sy'n derbyn gofal.
- Plant rhwng 10 a 15 oed yw'r gyfran fwyaf o'r plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru (37%). Serch hynny, pobl ifanc dros 16 oed yw'r gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn gofal.
- Gwelwyd cynnydd ym mhob grŵp oedran dros y pum mlynedd, ond mae'r cynnydd mwyaf ymysg plant dan 1 oed (37% dros bum mlynedd).
- O ran lleoliadau, gwelwyd cynnydd o 84% yn nifer y rhai sy'n cael eu lleoli gyda rhieni dros y pum mlynedd diwethaf.
- Er bod y rhan fwyaf yn cael eu rhoi mewn gofal maeth, bu cynnydd yn nifer y rhai sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr sy'n berthnasau (60% dros bum mlynedd) ac yn cael eu lleoli y tu allan i'w hawdurdod lleol 'cartref' (20% rhwng 2015 a 2019).

# Cyflwyniad

Mae'r nodyn briffio hwn yn canolbwyntio ar ddisgrifio'r tueddiadau sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal[1] yng Nghymru ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'n defnyddio data cyfanredol i ddisgrifio tueddiadau mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Nifer a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru
- Lleoliad
- Statws cyfreithiol

Wrth lunio'r ffigurau hyn, mae'r nodyn briffio'n darparu cyd-destun ar gyfer rhaglen waith ehangach y Ganolfan yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Daw'r data yn bennaf o'r wybodaeth a gyflwynir bob blwyddyn gan awdurdodau lleol i adlewyrchu eu sefyllfa ar 31ain Mawrth, ac mae'r diweddaraf o'r rhain yn ymwneud â'r ciplun a dynnwyd ar 31ain Mawrth 2019. Felly, mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn ategu'r hyn a gyhoeddwyd gan Stats Cymru a Llywodraeth Cymru yn Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol, 2018-19 (SFR 106/2019)[2] a Chyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru, 2019 (Ystadegau Arbrofol) (SFR 20/2020)[3].

Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o nodweddion y garfan plant sy'n derbyn gofal a chymorth ehangach, ac yn tynnu sylw at y gwahaniaethau ym mhroffil y rhai sy'n derbyn gofal, ar y gofrestr amddiffyn plant neu 'arall'. Mae'r berthynas rhwng y tair elfen hyn o'r garfan ehangach wedi'i chrynhoi yn Ffigur 1.

---

[1] Yn yr adroddiad hwn cyfeirir at 'blant sy'n derbyn gofal' ac at y fersiwn gryno 'LAC' (looked after children). Hwn yw'r term statudol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'i dalfyrru i Gyfrifiad LAC.

[2] Mae'r canllawiau technegol ar gyfer Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal 2018-19 ar gael yn: **https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/looked-after-children-census-2018-19-guidance_1.pdf**

[3] Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'n rhoi fframwaith cyfreithiol newydd, ac yn dod â chyfraith gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru at ei gilydd, ac yn ei moderneiddio. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu, ac yn cyflwyno dyletswyddau newydd ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol mewn perthynas ag asesu a darparu gofal a chymorth. Cafodd adran 17 o Ddeddf Plant 1989, sy'n diffinio 'Plant mewn Angen' ei diddymu. O ganlyniad, nid yw'r Cyfrifiad Plant mewn Angen yn cael ei gynnal bellach (er ei fod yn parhau yn Lloegr lle mae Deddf 1989 yn dal yn berthnasol). Mae wedi'i ddisodli gan y Cyfrifiad 'Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth' (CRCS) ac mae ganddo ofynion newydd. Er enghraifft, ni chesglir data ar gyfer plant heb eu geni. Mae'r canllawiau technegol ar gyfer Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ar gael yn: **https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/children-receiving-care-and-support-census-2018-19-notes.pdf**

### Tabl 1: Nodweddion y Carfanau Unigol ar 31ain Mawrth 2019, yn ôl Ffynhonnell

| | | Cyfrifiad CRCS: Pob un | Cyfrifiad CRCS: Arall | Cyfrifiad CRCS: Amddiffyn Plant | Cyfrifiad CRCS: Derbyn Gofal | Cyfrifiad LAC: Pob un |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 55% | 58% | 51% | 54% | 54% |
| | Benyw | 45% | 42% | 49% | 46% | 46% |
| Oed | Dan 1 oed | 5% | 3% | 9% | 5% | 6% |
| | 1 i 4 | 19% | 16% | 26% | 19% | 19% |
| | 5 i 9 | 27% | 28% | 31% | 24% | 23% |
| | 10 i 15 | 37% | 39% | 30% | 38% | 37% |
| | 16 oed a hŷn | 13% | 13% | 4% | 15% | 15% |
| Ethnigrwydd | Gwyn (1) | 90% | 89% | 89% | 92% | 91% |
| | Grŵp ethnig cymysg | 3% | 3% | 2% | 4% | 3% |
| | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (2) | 2% | 2% | 2% | 2% | 2% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig | 1% | 1% | 0% | 1% | 2% |
| | Grwpiau ethnig eraill | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% |
| | Gwrthod / Heb Gael Gwybodaeth | 3% | 4% | 5% | 1% | * |
| Anabledd | Anabl | 22% | 38% | 4% | 9% | 6% |
| | Ddim yn anabl | 78% | 62% | 95% | 91% | 91% |
| | Heb Gael Gwybodaeth | | | | | 2% |
| Cyfanswm | | 16,420 | 7,530 | 2,215 | 6,675 | 6,845 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad CRCS (Stats Cymru, 2020b; 2020c; 2020d; 2020e; 2020f), Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019a; 2019e) a Llywodraeth Cymru (2019). Nodiadau: (1) yn cynnwys Teithwyr a Sipsiwn/Roma. (2) yn cynnwys Tsieinïaidd a Phrydeinig Tsieinïaidd. Mae'r data ar Stats Cymru wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf ac mae rheolau ataliad yn berthnasol iddo. Pan fydd hyn wedi digwydd, nodir gyda *. Mae'r data sylfaenol wedi'i nodi yn Nhabl A.1.

Defnyddir Cyfrifiad LAC fel y mesur 'swyddogol' ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ar 31ain Mawrth 2019, roedd 6,845 o blant sy'n derbyn gofal, sy'n cyfateb i gyfradd o 109 am bob 10,000 o'r boblogaeth sydd rhwng 0-17 oed. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y Cyfrifiad CRCS yn is oherwydd bod yn rhaid i blant fod â chynllun gofal a chymorth ar y 1af o Ionawr 2019 neu cyn hynny a pharhau i fod ar y cynllun hwn ar 31ain Mawrth 2019 er mwyn cael eu cynnwys yn y ciplun hwn.


O'i gymharu â 2017 (y flwyddyn gyntaf y mae data ar gael o'r Cyfrifiad CRCS), gwelwyd cynnydd o 3% yn y niferoedd cyffredinol sy'n derbyn gofal a chymorth ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r gyfran sydd naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant neu sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o 49.7% i 54.1%. Mae hyn yn bennaf oherwydd y niferoedd uchel sydd nawr yn

derbyn gofal – mae’r rhain wedi cynyddu 15.5% (o 5,780 i 6,675) tra bo’r rhai ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu dim ond 3.7% (o 2,135 i 2,215). Yn ystod yr un cyfnod o dair blynedd, mae nifer y rhai sydd naill ai ddim yn blant sy’n derbyn gofal neu ddim ar y gofrestr amddiffyn plant ond sy'n derbyn gofal a chymorth wedi gostwng 6% (o 8,015 i 7,530).

## Ffigur 1: Y Cysylltiad Rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y Gofrestr Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal (31ain Mawrth 2019)

**Plant sy'n derbyn gofal a chymorth (16,420).**
Plant â chynllun gofal a chymorth, sy'n cael cymorth cymdeithasol gan eu hawdurdod lleol. Ar 31ain Mawrth 2019, roedd 54% angen gwasanaethau yn bennaf oherwydd eu bod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu mewn perygl o hynny. Roedd anabledd gan un o bob pump (22%) plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth.

Mae achosion amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal yn cynrychioli is-grwpiau'r garfan Plentyn sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ac maen nhw'n cael gwasanaethau mwy dwys.




**Arall (7,530, 45.9%)**
Bydd y plant hyn yn dal i fyw yng nghartref y teulu, a bydd y plentyn a/neu ei rieni yn cael cymorth ychwanegol. Ymysg y grŵp hwn, roedd bron i bedwar o bob deg (38%) yn cael gofal neu gymorth o ganlyniad i salwch neu anabledd y plentyn.

- Gorchymyn Gofal (83% ar 31ain Mawrth 2019)
- Cytundebau Gwirfoddol dan a76 (8%)
- Mae'r Statws Cyfreithiol arall yn cynnwys ar Remánd, Cael eu Cadw neu Orchymyn Gorfodol Arall (9%)

**Amddiffyn Plant (2,215, 13.5%)**
Plant â materion amddiffyn plant heb eu datrys, sy'n destun cynllun amddiffyn rhyngasiantaethol ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn dal i fod yng nghartref y teulu.

Efallai y bydd rhai o'r rhain wedi bod yn derbyn gofal yn ystod y 12 mis cyn iddyn nhw gael eu hatgyfeirio.

**Y ddau** – yn 2019 roedd 175 o blant sy'n derbyn gofal ac ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. *Sylwer: Mae data am y plant hyn wedi'i gynnwys yn y ffigurau Plant sy'n Derbyn Gofal.*

**Plant sy'n Derbyn Gofal (6,675, 40.7%)**
Plant yng ngofal awdurdod lleol neu sydd wedi cael llety gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol am gyfnod di-dor o fwy na 24 awr.

Efallai y bydd rhai o'r rhain wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y 12 mis cyn iddyn nhw gael eu hatgyfeirio.


Mae statws cyfreithiol gwahanol gan blant sy'n derbyn gofal. Mae rhieni'r rhai sy'n cael llety o dan 'llety gwirfoddol' A76 yn cadw eu holl hawliau cyfreithiol, a gallant fynnu bod y plentyn yn dychwelyd ar unrhyw adeg. Dan orchymyn gofal, mae'r rhiant yn ildio'i hawliau. Mae'r statws cyfreithiol arall yn cynnwys y rhai sydd ar orchmynion lleoli (aros i gael eu mabwysiadu), gorchmynion amddiffyn brys ac yn ymwneud â chyfiawnder ieuenctid.

Ffynhonnell: Cyfrifiad CRCS (Stats Cymru, 2020a; 2020d; 2020f), Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019b) a Llywodraeth Cymru (2019). Sylwer: Mae'r data ar Stats Cymru wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf ac mae rheolau ataliad yn berthnasol iddo.

# Tueddiadau dros amser

Ers y 1990au cynnar, mae cyfanswm y *niferoedd* a *chyfraddau* o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu (Ffigur 2).

### Ffigur 2: Nifer a Chyfradd y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru





Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (Stats Cymru, 2019f; 2019g). Mae'r data sylfaenol wedi'i nodi yn yr atodiad data.

Mae arbenigwyr yn anghytuno pa un a yw'r cyfraddau uchel o blant sy'n mynd i ofal yn brawf bod y system yn gweithio. Mae rhai'n dadlau bod mwy o blant sydd mewn perygl o niwed bellach yn cael eu diogelu, gyda'r rhai mewn gofal yn cael canlyniadau mwy cadarnhaol nag y byddent pe na baent wedi cael eu rhoi mewn gofal (Oakley et al., 2018). Ar y llaw arall, mae eraill yn dadlau bod cyfraddau uwch yn negyddol am fod canlyniadau addysgol ac iechyd plant sy'n derbyn gofal yn waeth ar gyfartaledd na'r rhai yn y boblogaeth gyffredinol. Hefyd, mae dadl foesol sy'n cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltiadau â theuluoedd biolegol. Felly, mae anghytuno pa un a oes maint delfrydol ar gyfer y boblogaeth mewn gofal, gydag ymchwil ddiweddar yng Nghymru yn awgrymu nad oes "rhif hud" ar gyfer y gyfradd o blant sy'n derbyn gofal mewn ardal leol a fyddai'n penderfynu a yw'r niferoedd yn "rhy uchel" neu'n "rhy isel" (Cordis Bright, 2013 wedi'i ddyfynnu yn Thomas, 2018). Awgrymir, yn hytrach, fel yn yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal, y dylai polisi ac ymarfer gael eu gyrru gan yr angen parhaus i wneud penderfyniadau ynghylch gofal ar sail anghenion unigol a'r budd pennaf. Er gwaethaf yr hanfod moesol hwn, mae pryder cynyddol bod y niferoedd cynyddol sy'n derbyn gofal yn rhoi straen ar gyllidebau awdurdodau lleol sy'n dynn yn barod. Mae'r ddyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal yn


golygu bod yn rhaid gwneud dewisiadau cyllidebol heriol nawr er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd (CLlLC ac ADSS Cymru, 2018).

### Ffigur 3: Cyfraddau Plant sy'n Derbyn Gofal, 2019




Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC, (Stats Cymru, 2019g). Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr atodiad data.

## Ffigur 4: Newid Net yng Nghyfraddau'r Plant sy'n Derbyn Gofal (a) 2015 i 2019 a (b) 2018 i 2019




Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC, (Stats Cymru, 2019g). Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr atodiad data.


Hefyd, mae amrywiad yng Nghymru wrth i gyfradd y plant sy'n derbyn gofal amrywio o 49 am bob 10,000 yn Sir Gaerfyrddin i 216 yn Nhorfaen. Mae Ffigur 4(a) yn crynhoi cyfraddau awdurdod lleol yn ogystal â'r newid net rhwng 2015 a 2019. Mae Castell-nedd Port Talbot wedi gweld ei gyfradd yn disgyn o 155 am bob 10,000 yn 2015 i 110 yn 2019 – gostyngiad sy'n cyfateb i 46 yn llai o blant yn derbyn gofal am bob 10,000. Mewn cyferbyniad, mae Torfaen wedi gweld ei gyfradd yn codi yn ystod yr un cyfnod gyda 66 o blant ychwanegol am bob 10,000.

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 4(b)), mae'r gyfradd wedi gostwng mewn tri awdurdod lleol, ac mae'r gyfradd wedi aros yn gymharol sefydlog mewn pum awdurdod lleol, ac mae'r gweddill wedi gweld cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn codi. Merthyr Tudful a Thorfaen sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn eu cyfraddau.

## Pa awdurdodau lleol sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y duedd ar i fyny?

Yr awdurdodau lleol â'r carfanau plant sy'n derbyn gofal mwyaf sydd â'r potensial i gael yr effaith fwyaf ar y tueddiad cyffredinol ledled Cymru – mae cynnydd o 10% ym maint y garfan mewn awdurdod lleol llai fel Ceredigion neu Ynys Môn yn cael effaith dra wahanol ar y prif ffigur i gynnydd o 10% yn un o'r awdurdodau mwy.

### Ffigur 5: Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Awdurdod Lleol




Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019e). Mae'r rhif mewn cromfachau ar ôl enw pob awdurdod lleol yn adlewyrchu maint y newid net rhwng 2015 a 2019. Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr atodiad data.

Mae Ffigur 5 yn crynhoi'r newid mewn gwir niferoedd yn ôl awdurdod lleol dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r awdurdodau lleol wedi'u rhoi yn nhrefn y newid net ym maint y

garfan. Gan ganolbwyntio ar y tri awdurdod mwyaf, gwelwn mai cynnydd canran cymharol fach a welodd Abertawe (45, 9%) a Rhondda Cynon Taf (55, 9%). Yng Nghaerdydd mae'r garfan fwyaf ac ar 31ain Mawrth 2019 roedd 250 ychwanegol o blant sy'n derbyn gofal o'i gymharu â 2015 – cynnydd o 38% dros bum mlynedd. Er nad hwn yw'r cynnydd canran mwyaf, pan fydd yn cael ei gymryd yn y cyd-destun bod 1,235 o blant ychwanegol sy'n derbyn gofal ledled Cymru o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl, mae hyn yn awgrymu mai Caerdydd gafodd yr effaith fwyaf ar y duedd ar i fyny. Petai Caerdydd wedi llwyddo i gadw'r garfan yn unol â lefel 2015, byddai cyfradd 2019 ar draws Cymru wedi bod yn 105 am bob 10,000 yn hytrach na 109 (gweler Tabl A.3, Fersiwn 1 am fanylion).

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae naw awdurdod lleol wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal (gweler Tabl A.3, Fersiwn 2 am fanylion). Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrif am bron 83% o'r cynnydd net mewn niferoedd dros y pum mlynedd. Gan gymryd nad oedd yr awdurdodau lleol hyn wedi gweld cynnydd na gostyngiad rhwng 31ain Mawrth 2015 a 31ain Mawrth 2019, byddai cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn 93 am bob 10,000 (5,840 o blant a phobl ifanc).

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd maint cyffredinol y garfan wedi cynyddu 440. O ran ffigurau absoliwt, y cynnydd mewn niferoedd sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd (+70), Caerffili (+50) a Thorfaen (+50) sydd wedi cyfrannu fwyaf at hyn. Petai'r tri awdurdod lleol hyn heb weld y cynnydd hwn, byddai'r gyfradd ledled Cymru yn 2019 yn 106 am bob 10,000.

## Pa grwpiau sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y duedd ar i fyny?


Mae nodweddion bras plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol: ychydig dros hanner (54%) yn fechgyn a 46% yn ferched. Gan ystyried proffil y boblogaeth 0-17 yng Nghymru, mae hyn gyfystyr yn fras â 114 o fechgyn sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'i gymharu â 103 o ferched am bob 10,000.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o fewn pob grŵp oedran. Mae hyn wedi digwydd ar gyflymder gwahanol, ac wedi ysgogi newid ym mhroffil oedran y garfan plant sy'n derbyn gofal. Mae'n werth nodi bod nifer y plant sy'n derbyn gofal rhwng 10-15 oed wedi cynyddu 20% (o 2,035 i 2,545), ond dim ond cynnydd o 7% a welwyd yn y nifer rhwng 16-17 oed (o 945 i 1,015). Pan fyddwn yn cyfrifo cyfraddau dangosol y plant sy'n derbyn gofal yn ôl grŵp oedran er mwyn ystyried strwythur y boblogaeth sylfaenol, fe welwn dwf yng nghyfradd y rhai rhwng 10-15 oed sy'n derbyn gofal o'i gymharu â 31ain Mawrth 2018.

Gallwch weld y tueddiadau tymor hwy yn Ffigur 6. Er bod y rhain yn dangos bod cyfradd y plant sy'n derbyn gofal ym mhob grŵp oedran wedi cynyddu ers 2003, roedd cyfradd y rhai sy'n derbyn gofal rhwng 16-17 oed yn uwch na chyfradd y plant rhwng 10-15 oed sy'n derbyn gofal am y tro cyntaf yn 2011. Mae'n debygol bod effaith gronnus y niferoedd uwch sy'n mynd i mewn i'r system ofal yn iau ac sy'n parhau i dderbyn gofal yn eu harddegau yn

egluro rhywfaint o'r gyfradd uwch ar gyfer y grŵp hŷn hwn. Er bod y rhain yn cyfrif am ychydig dros un o bob 20 plentyn sy'n derbyn gofal, gwelwyd cynnydd o 33% yn nifer y babanod dan un oed dros y pum mlynedd diwethaf. Mae dadansoddiad ar ran Nuffield Family Justice Observatory (Alrouh et al., 2020) yn tynnu sylw at ba mor aml mae babanod yn destun achosion gofal dro ar ôl tro, gydag awdurdodau lleol a'r llysoedd fel petaent yn cymryd camau sy'n llawer mwy rhagataliol yn gynnar ym mywyd plentyn pan fydd y llysoedd eisoes yn adnabod y fam.

**Ffigur 6: Cyfraddau Dangosol Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Grŵp Oedran**




Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019f). Nodiadau: Mae'r niferoedd wedi'u trosi yn gyfraddau am bob 10,000 o blant gan ddefnyddio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2019 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020). Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr atodiad data.

## A oes newidiadau wedi bod i'r math o ddarpariaeth lle mae plant yn cael eu lleoli?

Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth (4,870 allan o 6,845, 71% ar 31$^{ain}$ Mawrth 2019).


Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 7, mae dwy duedd amlwg wedi digwydd yng nghyd-destun y niferoedd cyffredinol mewn lleoliadau maeth lle maen nhw wedi cynyddu 15% dros y pum mlynedd diwethaf:


- Cynnydd o 60% mewn niferoedd sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr sy'n berthnasau (o 845 yn 2015 i 1,350)

- Cynnydd o 20% mewn niferoedd sy’n cael eu lleoli gyda gofalwyr y tu allan i’r awdurdod lleol (o 1,210 i 1,455 dros bum mlynedd)

Hefyd, mae’n werth nodi bod cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y niferoedd sy'n cael eu lleoli gyda’u rhieni eu hunain neu gyda rhywun arall sydd â chyfrifoldeb rhiant (Ffigur 8). O ganlyniad, mae'r gyfran sy’n cael ei lleoli gyda gofalwyr maeth wedi bod yn disgyn.

## Ffigur 7: Math o Ofalwr Maeth a Lleoliad y Gofal





Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019i)

Mae'r niferoedd sy'n cael eu lleoli gyda rhieni wedi cynyddu o 580 ar 31ain Mawrth 2015 i 1,065 ar 31ain Mawrth 2019; mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 84% dros bum mlynedd. Mae bron i un o bob chwe phlentyn sy'n derbyn gofal nawr yn cael eu lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu gyda rhywun arall sydd â chyfrifoldeb rhiant. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r niferoedd sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau preswyl fel unedau diogel, cartrefi plant a hosteli wedi cynyddu 75%, o 270 i 470. Ar y llaw arall, mae'r niferoedd sy'n cael eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu wedi bod yn gostwng ers 2015 ac mae'r rhai sy'n byw'n annibynnol wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf.

## Ffigur 8: Cyfraddau am bob 10,000 o Blant, yn ôl Math o Leoliad




Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019d). Nodiadau: Mae’r niferoedd wedi’u trosi yn gyfraddau am bob 10,000 o blant gan ddefnyddio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o’r Boblogaeth yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2019 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020). Dangosir lleoliadau maeth ar siart ar wahân er mwyn dangos y tueddiadau’n fwy clir o ran y mathau eraill o leoliadau. Mae’r data sylfaenol wedi’i grynhoi yn yr atodiad data.

## Ble maen nhw’n byw?

Mae’r rhan fwyaf (64%) o’r plant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli o fewn eu hawdurdod lleol ‘cartref’ ond mae'r gyfran yn codi i 66% ymysg y rhai mewn lleoliadau maeth. Gallai fod llawer o resymau am hyn, gan gynnwys lleoli’r plentyn gydag aelodau eraill o’r teulu neu er mwyn iddyn nhw allu cael gwasanaethau neu gymorth arbenigol sydd ddim ar gael yn lleol efallai.

Mae tua un o bob pedwar (25%) yn cael eu lleoli y tu allan i’w hawdurdod lleol, ond yn dal yng Nghymru. Mae’r gyfran fymryn yn uwch ymysg y rhai mewn lleoliadau maeth (27%).

### Ffigur 9: Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ac sy’n cael eu Lleoli y tu allan i Gymru




Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019c; 2019h)


Mae tua un o bob ugain (5.5%) plentyn sy'n derbyn gofal nawr yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru. Mae Ffigur 9 yn dangos bod y niferoedd wedi bod yn codi ers 2016. Gallai’r niferoedd fod yn uwch o bosibl oherwydd yn 2019 roedd 5% lle nad oedd cod post wedi’u nodi ar eu cyfer.[4]

[4] Credir mai problem TG yw hon, lle defnyddiwyd cyfeiriad y darparwr yn hytrach na chyfeiriad y lleoliad gofal.

## Beth yw eu statws cyfreithiol?

Ar 31ain Mawrth 2019, roedd ychydig dros bedwar o bob pump (83%) plentyn sy'n derbyn gofal ar Orchymyn Gofal adran 31 ac roedd 8% yn cael llety am un cyfnod o dan adran 76 (adran 20 o Ddeddf 1989 yn flaenorol). Roedd y 9% sy'n weddill yn cael llety'n bennaf dan statws cyfreithiol arall[5] gyda 20 allan o'r 620 ar remánd, yn cael eu cadw neu ar orchymyn gorfodol arall.[6]

### Ffigur 10: Cyfraddau am bob 10,000, yn ôl Statws Cyfreithiol




Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019b). Mae'r niferoedd wedi'u trosi yn gyfraddau am bob 10,000 o blant gan ddefnyddio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2019 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020).

Mae Ffigur 10 yn crynhoi'r cynnydd mewn defnydd o orchmynion gofal a'r gostyngiad mewn defnydd o adran 76. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd ar orchmynion gofal wedi cynyddu 46% (o 3,885 i 5,670) ac yn ystod yr un cyfnod mae'r nifer sy'n cael llety gwirfoddol am un cyfnod wedi gostwng 46% (o 1,035 i 555).

[5] Mae statws cyfreithiol arall yn cynnwys y rhai ar remánd, neu'n cael eu traddodi i dreial neu ddedfryd, ac yn cael llety gan ALl; Yn cael eu cadw mewn llety ALl dan PACE; Yn cael eu dedfrydu i orchymyn goruchwylio CYPA 1969 gyda gofyniad preswylio; Dan amddiffyniad yr heddlu ac mewn llety awdurdod lleol; Gorchymyn amddiffyn brys; Dan orchymyn asesu plentyn a llety awdurdod lleol.

[6] Mae'n cynnwys rhoi gorchymyn rhyddhau; rhoi gorchymyn lleoli; Rhoi gwardiaeth yn yr Uchel Lys a phlentyn mewn llety ALl.

# Atodiad Data

## Tabl A.1: Nodweddion y Carfanau Unigol ar 31ain Mawrth 2019, yn ôl Ffynhonnell

| | | Cyfrifiad CRCS: Pob un | Cyfrifiad CRCS: Arall | Cyfrifiad CRCS: Amddiffyn Plant | Cyfrifiad CRCS: Derbyn Gofal | Cyfrifiad LAC: Pob un |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 9,090 | 4,350 | 1,135 | 3,600 | 3,695 |
| | Benyw | 7,330 | 3,180 | 1,075 | 3,075 | 3,150 |
| Oed | Dan 1 oed | 770 | 240 | 190 | 340 | 385 |
| | 1 i 4 | 3,050 | 1,205 | 585 | 1,260 | 1,290 |
| | 5 i 9 | 4,385 | 2,120 | 685 | 1,575 | 1,600 |
| | 10 i 15 | 6,130 | 2,950 | 655 | 2,525 | 2,545 |
| | 16 oed a hŷn | 2,085 | 1,015 | 95 | 975 | 1,015 |
| Ethnigrwydd | Gwyn (1) | 14,815 | 6,695 | 1,980 | 6,140 | 6,255 |
| | Grŵp ethnig cymysg | 490 | 195 | 55 | 235 | 235 |
| | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (2) | 285 | 135 | 35 | 115 | 125 |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig | 200 | 100 | 10 | 90 | 105 |
| | Grwpiau ethnig eraill | 175 | 95 | 30 | 55 | 125 |
| | Gwrthod / Heb Gael Gwybodaeth | 455 | 315 | 105 | 35 | * |
| Anabledd | Anabl | 3,575 | 2,880 | 95 | 600 | 435 |
| | Ddim yn anabl | 12,845 | 4,650 | 2,115 | 6,080 | 6,260 |
| | Heb Gael Gwybodaeth | | | | | 155 |
| Cyfanswm | | 16,420 | 7,530 | 2,215 | 6,675 | 6,845 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad CRCS (Stats Cymru, 2020c; 2020d; 2020e; 2020f), Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019a; 2019e) a Llywodraeth Cymru (2019). Nodiadau: (1) yn cynnwys Teithwyr a Sipsiwn/Roma. (2) yn cynnwys Tsieinïaidd a Phrydeinig Tsieinïaidd. Mae'r data ar Stats Cymru wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf ac mae rheolau ataliad yn berthnasol iddo. Pan fydd hyn wedi digwydd, nodir gyda *.

## Tabl A.2: Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Awdurdod Lleol

| | Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | Newid Net | | Cyfradd y Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | Newid Net | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 5 bln | 1 bln | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 5 bln | 1 bln |
| Ynys Môn | 90 | 110 | 140 | 145 | 145 | 55 | 0 | 65 | 80 | 104 | 107 | 109 | 44 | 2 |
| Gwynedd | 190 | 205 | 220 | 225 | 255 | 65 | 30 | 81 | 88 | 93 | 97 | 108 | 27 | 11 |
| Conwy | 155 | 170 | 180 | 210 | 210 | 55 | 0 | 72 | 78 | 83 | 98 | 97 | 25 | -1 |
| Sir Ddinbych | 160 | 175 | 160 | 165 | 165 | 5 | 0 | 83 | 89 | 82 | 85 | 85 | 2 | -0 |
| Sir y Fflint | 220 | 205 | 210 | 215 | 240 | 20 | 25 | 68 | 64 | 65 | 67 | 74 | 6 | 6 |
| Wrecsam | 175 | 200 | 215 | 260 | 280 | 105 | 20 | 60 | 67 | 74 | 89 | 96 | 36 | 8 |
| Powys | 135 | 150 | 155 | 210 | 240 | 105 | 30 | 54 | 60 | 63 | 87 | 99 | 45 | 12 |
| Ceredigion | 80 | 80 | 75 | 60 | 65 | -15 | 5 | 62 | 63 | 61 | 50 | 51 | -11 | 1 |
| Sir Benfro | 115 | 125 | 125 | 135 | 155 | 40 | 20 | 47 | 52 | 52 | 56 | 64 | 17 | 8 |
| Sir Gaerfyrddin | 240 | 215 | 205 | 195 | 185 | -55 | -10 | 64 | 58 | 56 | 52 | 49 | -15 | -3 |
| Abertawe | 510 | 510 | 480 | 525 | 555 | 45 | 30 | 109 | 108 | 102 | 111 | 117 | 8 | 7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 435 | 375 | 350 | 330 | 310 | -125 | -20 | 155 | 135 | 124 | 118 | 110 | -45 | -7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 390 | 380 | 390 | 385 | 380 | -10 | -5 | 135 | 131 | 134 | 131 | 130 | -5 | -2 |
| Bro Morgannwg | 185 | 195 | 230 | 240 | 285 | 100 | 45 | 69 | 73 | 85 | 89 | 103 | 34 | 13 |
| Caerdydd | 650 | 645 | 725 | 830 | 900 | 250 | 70 | 89 | 88 | 98 | 112 | 120 | 31 | 9 |
| Rhondda Cynon Taf | 620 | 625 | 690 | 675 | 675 | 55 | 0 | 124 | 125 | 138 | 135 | 135 | 11 | -1 |
| Merthyr Tudful | 165 | 140 | 145 | 155 | 200 | 35 | 45 | 131 | 113 | 114 | 122 | 155 | 24 | 32 |
| Caerffili | 270 | 275 | 325 | 385 | 435 | 165 | 50 | 70 | 71 | 85 | 100 | 114 | 44 | 14 |
| Blaenau Gwent | 135 | 190 | 210 | 235 | 220 | 85 | -15 | 98 | 139 | 154 | 172 | 163 | 65 | -9 |
| Torfaen | 290 | 270 | 320 | 365 | 415 | 125 | 50 | 150 | 142 | 167 | 191 | 216 | 66 | 26 |
| Sir Fynwy | 110 | 130 | 135 | 140 | 175 | 65 | 35 | 60 | 73 | 75 | 79 | 98 | 38 | 19 |
| Casnewydd | 285 | 295 | 280 | 325 | 370 | 85 | 45 | 86 | 88 | 83 | 94 | 106 | 20 | 12 |
| **Cymru** | **5,610** | **5,660** | **5,960** | **6,405** | **6,845** | **1,235** | **440** | **89** | **90** | **95** | **102** | **109** | **20** | **7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019e; 2019g).

## Tabl A.3: Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Awdurdod Lleol: Data wedi'i Fodelu

| | | Nifer ar 31ain Mawrth | | | | | Data 2019 Wedi'i Fodelu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **Fersiwn 1** | **Fersiwn 2** | **Fersiwn 3** |
| Ynys Môn | | 90 | 110 | 140 | 145 | 145 | 145 | 145 | 145 |
| Gwynedd | ↑ | 190 | 205 | 220 | 225 | 255 | 255 | 190 | 255 |
| Conwy | | 155 | 170 | 180 | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 |
| Sir Ddinbych | | 160 | 175 | 160 | 165 | 165 | 165 | 165 | 165 |
| Sir y Fflint | | 220 | 205 | 210 | 215 | 240 | 240 | 240 | 240 |
| Wrecsam | ↑ | 175 | 200 | 215 | 260 | 280 | 280 | 175 | 280 |
| Powys | ↑ | 135 | 150 | 155 | 210 | 240 | 240 | 135 | 240 |
| Ceredigion | | 80 | 80 | 75 | 60 | 65 | 65 | 65 | 65 |
| Sir Benfro | ↑ | 115 | 125 | 125 | 135 | 155 | 155 | 115 | 155 |
| Sir Gaerfyrddin | ↓ | 240 | 215 | 205 | 195 | 185 | 185 | 185 | 185 |
| Abertawe | | 510 | 510 | 480 | 525 | 555 | 555 | 555 | 555 |
| Castell-nedd Port Talbot | ↓ | 435 | 375 | 350 | 330 | 310 | 310 | 310 | 310 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | ↓ | 390 | 380 | 390 | 385 | 380 | 380 | 380 | 380 |
| Bro Morgannwg | ↑ | 185 | 195 | 230 | 240 | 285 | 285 | 185 | 285 |
| Caerdydd | ↑ | 650 | 645 | 725 | 830 | 900 | 650 | 650 | 830 |
| Rhondda Cynon Taf | | 620 | 625 | 690 | 675 | 675 | 675 | 675 | 675 |
| Merthyr Tudful | | 165 | 140 | 145 | 155 | 200 | 200 | 200 | 200 |
| Caerffili | ↑ | 270 | 275 | 325 | 385 | 435 | 435 | 270 | 385 |
| Blaenau Gwent | ↓ | 135 | 190 | 210 | 235 | 220 | 220 | 220 | 220 |
| Torfaen | ↑ | 290 | 270 | 320 | 365 | 415 | 415 | 290 | 365 |
| Sir Fynwy | ↑ | 110 | 130 | 135 | 140 | 175 | 175 | 110 | 175 |
| Casnewydd | | 285 | 295 | 280 | 325 | 370 | 370 | 370 | 370 |
| **Cymru** | | **5,610** | **5,660** | **5,960** | **6,405** | **6,845** | **6,610** | **5,840** | **6,690** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019e). Wrth fodelu'r data, mae fersiwn 1 yn defnyddio ffigur 2015 ar gyfer Caerdydd i ddangos yr effaith ar y ffigur cenedlaethol petai awdurdod mwyaf y wlad heb weld twf yn ei garfan CLA dros y pum mlynedd diwethaf. Mae fersiwn 2 yn 'gosod' maint y garfan yn unol â lefel 2015 yn y naw awdurdod lleol a welodd duedd sylweddol ar i fyny yn ystod y tair neu'r pum mlynedd diwethaf – nodir y rhain gyda ↑. Mae fersiwn 3 yn 'gosod' maint y garfan yn unol â lefel 2018 yn y tri awdurdod lleol a welodd y cynnydd mwyaf o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er gwybodaeth, mae'r pedwar awdurdod lleol a welodd ostyngiadau sy'n berthnasol i'r flwyddyn flaenorol wedi'u fflagio â ↓.

## Tabl A.4: Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Grŵp Oedran

| | Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | Cyfradd Ddangosol am bob 10,000 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Dan 1 oed | 290 | 300 | 360 | 360 | 385 | 86 | 90 | 111 | 111 | 118 |
| 1 i 4 oed | 990 | 1,015 | 1,065 | 1,180 | 1,290 | 70 | 73 | 77 | 85 | 93 |
| 5 i 9 oed | 1,345 | 1,320 | 1,375 | 1,475 | 1,600 | 75 | 72 | 74 | 80 | 87 |
| 10 i 15 oed | 2,035 | 2,085 | 2,165 | 2,380 | 2,545 | 102 | 104 | 106 | 117 | 125 |
| 16 i 17 oed | 945 | 940 | 975 | 1,000 | 1,015 | 130 | 133 | 141 | 145 | 147 |
| Cyfanswm ac eithrio rhai 18 oed | **5,605** | **5,660** | **5,940** | **6,395** | **6,845** | **89** | **90** | **95** | **102** | **109** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019f). Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2019 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020).

## Tabl A.5: Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Rhyw

| | Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | Cyfradd Ddangosol am bob 10,000 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Gwryw | 3,020 | 3,025 | 3,205 | 3,475 | 3,695 | 94 | 94 | 99 | 108 | 114 |
| Benyw | 2,595 | 2,640 | 2,750 | 2,930 | 3,150 | 85 | 86 | 90 | 96 | 103 |
| Cyfanswm ac eithrio rhai 18 oed | **5,605** | **5,660** | **5,940** | **6,395** | **6,845** | **89** | **90** | **95** | **102** | **109** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019f). Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2019 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020).

## Tabl A.6: Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Lleoliad

| | Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | Cyfradd Ddangosol am bob 10,000 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Gofal Maeth | 4,215 | 4,250 | 4,425 | 4,700 | 4,870 | 67 | 68 | 70 | 75 | 77 |
| Lleoli ar gyfer eu Mabwysiadu | 295 | 265 | 245 | 250 | 225 | 5 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Lleoliad Preswyl | 270 | 305 | 355 | 400 | 470 | 4 | 5 | 6 | 6 | 7 |
| Gyda Rhieni | 580 | 635 | 725 | 860 | 1,065 | 9 | 10 | 12 | 14 | 17 |
| Byw'n Annibynnol | 110 | 100 | 130 | 130 | 125 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Absennol neu Arall | 135 | 105 | 80 | 65 | 95 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **5,605** | **5,660** | **5,940** | **6,395** | **6,845** | **89** | **90** | **95** | **102** | **109** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019d). Nodiadau: Mae'r niferoedd wedi'u trosi yn gyfraddau am bob 10,000 o blant gan ddefnyddio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2019 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020).

## Tabl A.7: Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Lleoliad Maeth

| | Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | Canran | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Perthynas | 845 | 900 | 1010 | 1,200 | 1,350 | 20% | 21% | 23% | 25% | 28% |
| Ddim yn Berthynas | 3,380 | 3,355 | 3,400 | 3,520 | 3,520 | 80% | 79% | 77% | 75% | 72% |
| O fewn Awdurdod Lleol | 3,015 | 3,025 | 3,160 | 3,355 | 3,415 | 71% | 71% | 72% | 71% | 70% |
| Y tu allan i Awdurdod Lleol | 1,210 | 1,225 | 1,250 | 1,365 | 1,455 | 29% | 29% | 28% | 29% | 30% |
| **Cyfanswm mewn Gofal Maeth** | **4,215** | **4,250** | **4,425** | **4,700** | **4,870** | **100%** | **100%** | **100%** | **100%** | **100%** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019i).

## Tabl A.8: Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Statws Cyfreithiol

| | Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | | | | | Cyfradd Ddangosol am bob 10,000 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Gorchmynion Gofal | 3,885 | 4,145 | 4,630 | 5,255 | 5,670 | 62 | 66 | 74 | 82 | 90 |
| Cytundeb Gwirfoddol | 1,035 | 895 | 700 | 640 | 555 | 16 | 14 | 11 | 10 | 9 |
| Ar Remánd, Cael eu Cadw neu Orchymyn Gorfodol Arall | * | 10 | * | 5 | 20 | * | 0 | * | 0 | 0 |
| Statws Cyfreithiol Arall | 690 | 615 | 610 | 605 | 600 | 11 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| **Cyfanswm** | **5,605** | **5,660** | **5,940** | **6,395** | **6,845** | **89** | **90** | **95** | **102** | **109** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad LAC (Stats Cymru, 2019b). Mae'r niferoedd wedi'u trosi yn gyfraddau am bob 10,000 o blant gan ddefnyddio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth yn ôl oedran ar gyfer pob awdurdod lleol, 2001 i 2019 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020). Mae'r data ar Stats Cymru wedi'i dalgrynnu i'r pump agosaf ac mae rheolau ataliad yn berthnasol iddo. Pan fydd hyn wedi digwydd, nodir gyda *.

# Cyfeiriadau

Alrouh B, Broadhurst K a Cusworth L (2020) **Women in recurrent care proceedings in Wales: a first benchmarking report.** Cyrchwyd o: https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/women-in-recurrent-care-proceedings-in-wales-a-first-benchmarking-report.

Oakley M, Miscampbell G a Gregorian R (2018) **Looked-after children: The Silent Crisis.** Llundain: The Social Market Foundation.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) **Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland**. Cyrchwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland.

Stats Cymru (2019a) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol ac ethnigrwydd** Cyrchwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-ethnicity.

Stats Cymru (2019b) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a statws cyfreithiol**. Cyrchwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-legalstatus.

Stats Cymru (2019c) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a lleoliad eu gofal.** Cyrchwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-locationofplacement.

Stats Cymru (2019d) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad.** Cyrchwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-placementtype.

Stats Cymru (2019e) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran.** Cyrchwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age.

Stats Cymru (2019f) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran.** Cyrchwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age.

Stats Cymru (2019g) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn***.* Cyrchwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31marchper10000population-localauthority-year.

Stats Cymru (2019h) **Plant sy'n derbyn gofal sydd mewn gofal maeth ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a lleoliad y gofal.** Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterinfostercareat31march-by-localauthority-locationofplacement**.

Stats Cymru (2019i) **Plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad**. Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrens-services-children-looked-after-childrenlookedafterinfosterplacementsat31march-by-localauthority-placementtype**.

Stats Cymru (2020a) **Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl categori angen ac anabledd.** Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-categoryofneed-disability**.

Stats Cymru (2020b) **Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl ethnigrwydd a statws derbyn gofal.** Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-ethnicity-lookedafterstatus**

Stats Cymru (2020c) **Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran.** Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-agegroup**.

Stats Cymru (2020d) **Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol ac anabledd.** Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-disability**.

Stats Cymru (2020e) **Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a rhyw.** Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-gender.**

Stats Cymru (2020f) **Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a statws derbyn gofal.** Cyrchwyd o: **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-lookedafterstatus**.

Thomas C (2018) **Care Crisis Review: Factors contributing to national increases in numbers of looked after children and applications for care orders.** Llundain: Family Rights Group.

Llywodraeth Cymru (2019) **Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2018-19.** Cyrchwyd o: **https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/children-looked-after-local-authorities-april-2018-march-2019-964.pdf**.

CLlLC ac ADSS Cymru (2018) **Datganiad Sefyllfa ar Wasanaethau Plant.** Cyrchwyd o: **https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1840**.

## Manylion yr Awduron

Mae **Dr Helen Hodges** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
**Dan Bristow**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae’r adroddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre
for Public Policy
Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru